# Cynghorion ar gyfer ysgrifennu at eich AS

### E-bost neu lythyr wedi'i ysgrifennu â llaw?
Mae ASau yn ymateb yn rheolaidd i e-byst, ac mae'n well gan rai gysylltu fel hyn, ond mae llythyrau wedi'u hysgrifennu â llaw yn sefyll allan - meddyliwch pryd oedd y tro diwethaf i chi dderbyn un!

### Cymraeg neu Saesneg?
Defnyddiwch pa bynnag iaith rydych chi a'ch grŵp cymunedol yn fwy cyfforddus yn ei defnyddio.

### Cynnwys eich enw a'ch cyfeiriad
Os mai hwn yw eich llythyr cyntaf at eich AS, dechreuwch trwy gyflwyno eich hun/eich grŵp. Dim ond ar bryderon eu hetholwyr y mae Aelodau yn canolbwyntio, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys eich cyfeiriad a'ch cod post i gadarnhau bod angen iddynt wrando arnoch chi, ac fel eu bod yn gwybod ble i anfon ymateb.

### Ei wneud yn bersonol
Defnyddiwch eich geiriau eich hun i esbonio pam eich bod yn poeni am y mater. Gallech siarad am ffeithiau a ffigyrau perthnasol, esbonio sut mae hyn yn effeithio ar eich ardal leol neu gynnwys stori bersonol yn ymwneud â'r mater. Bydd hyn yn gwneud eich llythyr yn fwy cofiadwy – mae ASau yn cael llawer o bethau gan etholwyr, felly rydych chi am i'ch un chi sefyll allan.

### Gofynnwch i'ch AS wneud rhywbeth
Ar ôl i chi egluro'r mater, mae'n bwysig dweud wrth eich AS beth rydych chi am iddyn nhw ei wneud amdano. Rydych chi eisiau gofyn iddyn nhw weithredu. Efallai yr hoffech hefyd eu gwahodd i ymweld â'ch grŵp i weld drostynt eu hunain pa mor bwysig yw gweithredu cymunedol.

### Byddwch yn gryno
Byddwch yn gryno a dewch at y pwynt yn gyflym. Ceisiwch gadw'ch llythyr yn fyr (tudalen neu ddwy, ar y mwyaf) a chadwch at un mater i'w gwneud hi'n glir iawn beth rydych chi am i'ch AS ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag ef.

### Gofynnwch am ymateb
Dylech ofyn i'ch AS gadarnhau eu bod wedi gweithredu ac egluro'r hyn maen nhw wedi'i wneud mewn ymateb i'ch llythyr. Ac os nad ydych wedi derbyn ymateb gan eich AS ar ôl ychydig wythnosau, ewch ar drywydd hynny trwy anfon e-bost neu drwy ffonio eu swyddfa i wirio bod eich llythyr wedi cyrraedd.

### Dweud diolch
Os yw'ch AS wedi gwneud rhywbeth positif, dywedwch ddiolch – byddant yn ei werthfawrogi.